

DOLEN Y TAB – 55

14–15 Mai 2021

Oedfa Bore Sul 16 Mai

Gwasanaeth Cymorth Cristnogol

Bydd yr oedfa ddydd Sul yng ngofal rhai o aelodau'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol. Y cyfranwyr fydd John Llewellyn Thomas, Geraint Wyn Davies, Eleri Jones ac Ann Dwynwen Davies.

Bydd cyfle hefyd i weld fideo Cymorth Cristnogol sy'n canolbwyntio ar yr angen yn Kenya.

Bydd yr oedfa ar gael ar ein tudalen *Facebook* neu ar ein sianel *YouTube* drwy glicio ar

<https://youtu.be/VQDFnjDYIN0>

Oedfaon y Suliau nesaf

Mai

23 Y Parchg. Gethin Rhys.

30 Oedfa fyw ar Zoom, gyda Heulyn a Catrin Rees (manyllion Zoom i ddilyn).

Mehefin

6 Yng ngofal aelodau Pentyrch.

13 Geraint Rees a'i ffrindiau.

20 Yng ngofal Rhiannon a Gareth Humphreys.

Hefyd ddydd Sul 16 Mai

12:00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Cass Meurig, y Bala.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19:30 S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Cawn glywed gan griw o fyfyrwyr Prifysgol Abertawe sydd wedi creu a recordio Neges Heddwch ac Ewyllys Da, Urdd Gobaith Cymru, eleni.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul

www.cristnogaeth21.cymru


Capel y Tabernacl Cyf.

Cyfarfod Cyffredinol Arbennig (Cwrdd Eglwys)

Am 7.30yh Nos Iau, 27 Mai

Cyfarfod rhithiol dros Zoom fydd hwn. Byddwn yn dosbarthu'r ddolen i ymuno yn y cwrdd wythnos nesaf.

NEGES GAN Y CADEIRYDD



Annwyl Gyfeillion a Chyd-aelodau

Y Cynllun Arloesi a Buddsoddi

Fe gofiwch i Undeb yr Annibynwyr, beth amser yn ôl, gynnig grant sylweddol i eglwysi dan eu rhaglen Arloesi a Buddsoddi. Fel Eglwys flaengar a brwdfrydig, teimlad aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr oedd y dylem fanteisio ar y cyfle hwn i lunio cais am grant fyddai'n galluogi'r Tabernacl i ddatblygu cynllun arloesol i roi hwb i'r achos ar ôl y pandemig a hefyd i godi'n proffil ni o fewn y gymuned leol.

Dros y misoedd diwethaf mae'r Is-bwyllgor, a sefydlwyd i'r perwyl hwnnw, wedi cyflwyno adroddiad yn fisol i'r Bwrdd llawn. Wedi pwyso a mesur yr holl dystiolaeth a gasglwyd gan yr Is-bwyllgor, mae'r Bwrdd bellach yn awyddus i ofyn i'r aelodau roi sêl bendith ar y cynllun arfaethedig.

Ers dechrau'r flwyddyn, trefnwyd lluo o gyfarfodydd dros Zoom i dderbyn ac asesu sylwadau ac awgrymiadau gwahanol garfanau o fewn yr eglwys, a daethpwyd i'r casgliad mai'r flaenoriaeth fyddai targedu gweithgareddau i ddenu a chadw diddordeb pobl ifanc, yn blant ac yn rieni, ym mywyd yr eglwys. Heb danio eu diddordeb hwy, fe fydd tranc y Tabernacl yn prysur ddilyn yr un llwybr â thranc llawer o eglwysi eraill ledled Cymru wrth i drwch yr aelodau heneiddio.

Ein gobaith, felly, fydd cyflogi swyddog rhan amser i gydlynu, arwain a hyrwyddo'r gwaith yn y maes hwn, heb anghofio rhoi sylw hefyd i selogion yr eglwys. Anelwn at bontio'r berthynas rhyngom ni a'r gymuned leol trwy agor ein drysau a dangos bod mwy i efengyl Iesu Grist na dim ond oedfa am awr ar fore Sul. Wrth gwrs, ni ddaw cyflogi person addas yn rhad, a bydd galw arnom ni fel eglwys i gyfrannu oddeutu £16k y flwyddyn ar ben cyfraniad £10k yr Undeb tuag at gynnal y swydd. Ond o ddenu person cymwys i sicrhau ffyniant y gweithgareddau, rwyf o'r farn y byddwn ar ein hennill fel eglwys.

Ceir cyfle yn y Cwrdd Eglwys i rannu rhagor o wybodaeth am y swydd, ynghyd â chael ateb i gwestiynau fydd yn codi. Felly, erfyniaf yn daer arnoch i ymuno â ni yn y cyfarfod rhithiol hwn fel y medrwn symud ymlaen i wireddu'r weledigaeth.

Edrychaf ymlaen yn fawr i'ch gweld nos Iau 27 Mai.

Yn gywir

Edwyn Evans (Cadeirydd y Bwrdd)

Hil a Chaethwasiaeth

Er gwaethaf y pandemig, go brin yr anghofir llofruddiaeth George Floyd yn yr Unol Daleithiau ym mis Mai y llynedd, a hynny drwy law aelod o'r heddlu. Sioc a dicter oedd ein hymateb – bod hyn yn gallu digwydd yn yr unfed ganrif ar hugain ymysg dinasyddiaeth wâr. Sut nad oedden *nhw*, yr Americanwyr, wedi llwyddo i alltudio cysgodion caethwasiaeth o'u gwlad?

Fodd bynnag buan y trodd yr holi a'r trafod oddi wrth 'y *nhw*' atom 'ni'. Wedi'r cwbl, a oedd ein dwylo ni mor lân â hynny? Yr ateb, wrth gwrs, oedd na. Trodd y sylw ar 'berchnogion' caethweision Prydeinig, ac yn benodol at y cofgolofnau a godwyd iddynt. Ym Mryste dymchwelwyd cofgolofn Edward Colston yn ddiseremoni, symudwyd cerflun Thomas Picton o Neuadd y Ddinas Caerdydd, a bu cryn drafod am bresenoldeb cofebau cyffelyb ar draws Cymru. Gyda llaw, mae bwriad llywodraeth San Steffan i gosbi'r rhai sy'n euog o ddifwyno'r cofgolofnau hyn yn llymach na threiswyr merched yn gwbl gywilyddus.

Mae nofel ddirdynol Angharad Tomos, *Y Castell Siwgr*, yn dangos yn eglur gyfraniad yr Arglwydd Penrhyn i gaethwasiaeth. Ac ar drywydd gwahanol, mae'n sboreiddiol nodi i Syr Thomas Myddelton, un o sylfaenwyr Cwmni Dwyrain yr India oedd â monopoli i gludo caethweision o Affrica, hefyd ymhlith prif noddwyr cyhoeddi Beibl Bach John Davies Mallwyd.



Unigolion oedd y rhain. Ond roedd hi'n amlwg bod y wladwriaeth Brydeinig wedi bod yn rhan o'r fasnach caethwasiaeth ar draws yr Iwerydd. Sefydlwyd y *Royal African Company* ganol yr ail ganrif ar bymtheg, gan sicrhau monopoli ar gludo caethweision o arfordir gorllewinol Affrica i India'r Gorllewin ac America. Sylwer ar y teitl *Royal*. Yn ganolog i'r fenter roedd y teulu brenhinol, y Stiwardiaid – tystiolaeth bendant bod haen uchaf y sefydliad Prydeinig yn gonglfaen i'r fasnach ddiefflig hon.

Onid oedd hyn amser maith – yn wir, ganrifoedd – yn ôl? Wedi'r cwbl, ym 1833 llwyddodd William Wilberforce a'i gyd-ddiddymwyr i osod y Ddeddf Gwahardd Caethwasiaeth ar y llyfr statud a thrwy eu buddugoliaeth ddod â rhan Prydain mewn caethwasiaeth i ben. Wel, yn anffodus nid dyna oedd diwedd y stori oherwydd mynnodd y perchnogion fod y wladwriaeth yn eu digolledu am y gwaharddiad, ac wedi ymgyrch ffyrnig pasiwyd y Ddeddf Iawndal ym 1837. O ganlyniad i'r ddeddf honno, derbyniodd 40,000 o 'berchnogion' iawndal – gan gynnwys 41 o Gymru.

Yn ddiweddar, darlledwyd cyfres o raglenni teledu gan y BBC yn rhoi cip ar gynnwys yr archifau. Tra byddid yn tybio taw perchnogion stadau cyfoethog gafodd eu digolledu, mae'n syndod bod cymaint o bobl gyffredin, megis offeiriaid, yn eu plith. Yn y gyfres *Britain's Forgotten Slave Owners*, dangosodd y cyflwynydd, David

Olusoga, gofnod am ddwy chwaer oedd yn berchen ar un caethwas a'r arian a dalwyd mewn iawndal oedd £63 19s 3c. Ymhlith y ceisiadau eraill a dderbyniwyd roedd llythyr gan un wraig weddw yn datgan: "Rydw i, fy merch a'i phlant, yn gwbl ddibynol ar yr arian ddaw o stad fy niweddar wâr . . . mae'r arian yn gwbl angenrheidiol i mi."

Tua £20 miliwn oedd cyfanswm yr iawndal a ddyranwyd i'r teuluoedd hyn a'u disgynyddion – swm fyddai'n cyfateb i tua £17 biliwn heddiw. Dyma'r 'ddyled' drom y bu'n rhaid i'r wladwriaeth ei hwynebu, ac ni chafodd ei chlirio'n gyfan gwbl tan 2015. Does ond ychydig amser, felly, ers i staen masnach caethwasiaeth Prydain o gyfandir Affrica i America gael ei ddileu, er nad yw caethwasiaeth wedi marw o'r tir, fel y dengys y newyddion am ferched yn cael eu herwgipto o ddwyrain Ewrop ar gyfer y farchnad ryw.

Ond yn ôl at George Floyd. 'Penlinio' oedd un o'r testunau a osodwyd yn *Y Talwrn* yn ddiweddar. Fe'i symbylwyd, mae'n siŵr, gan brotest 'plygu glin' pêldroedwyr yn erbyn hiliaeth yn dilyn marwolaeth Floyd. Sbreiddiol, fodd bynnag, oedd dehongliad un o'r beirdd, Emyr Davies, o'r testun. Dyma ei englyn:

Er fy mod yn warchodol – o hawliau
Pob un hil wahanol,
Mae darn o'm rhagfarn ar ôl
Ar 'u gwddw'n dragwyddol.

Holed pob un ei hunan.

(*Diolch i Rowland Wynne am lunio'r eitem uchod ar drothwy blwyddyn ers llofruddiaeth George Floyd ar 25 Mai 2020.*)

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL Mai 10–16, 2021

Eleni, bydd Cymorth Cristnogol yn casglu arian ar gyfer lleddfu problemau sy'n wynebu nifer o wledydd oherwydd y sychder a geir yn sgil newid hinsawdd. Unwaith eto, ni fydd modd casglu o ddrws i ddrws, a byddwn ni yn y Tabernacl yn dilyn yr un cyfarwyddiadau â'r llynedd, gan gyfrannu drwy sieciau a throsglwyddiadau banc.

Dyma'r manylion cyfrannu ar gyfer y casgliad pwysig hwn:

Sieciau'n daladwy i **Capel y Tabernacl Cyf**, ynghyd â'ch enw a nodyn yn enwi Wythnos Cymorth Cristnogol, i'w hanfon at: Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU

Trosglwyddiad banc, gyda'ch enw a nodyn yn enwi Wythnos Cymorth Cristnogol:
Cod Didoli: 30 – 96 – 72
Rhif cyfrif: 03607499

DIOLCH YN FAWR, Y GWEITHGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledauen newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205.